Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr
Trustee Recruitment Pack

trac cymru

DATBLYGU TRADDODIADAU GWERIN
FOLK DEVELOPMENT FOR WALES
www.trac.cymru

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn un o Ymddiriedolwyr Trac Cymru.

Wrth i ni ddynesu at ddathlu ein pen-blwydd diweddar yn un ar hugain oed, rydym yn falch o weld effaith ein gwaith ar y sin gerddoriaeth Gymreig ac ar fywydau cymaint o bobl sydd wedi mynychu ein cyrsiau a'n digwyddiadau.

Rydym yn estyn allan i recriwtio Ymddiriedolwyr newydd fydd yn arwain yr elusen i ddyfodol cryf a llawn dychymyg. Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr profiadol a rhai sy'n newydd i'r gwaith fel ei gilydd.

Oherwydd ymddeoliadau diweddar o'r Bwrdd rydym yn arbennig o awyddus ar hyn o bryd i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae gan yr elusen bolisi dwyieithrwydd, ac mae'r Bwrdd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, dysgwyr, ac aelodau di-Gymraeg.

Fel sefydliad, rydym yn gwybod fod angen i ni wella ein hamrywiaeth er mwyn adlewyrchu Cymru gyfan yn well; felly rydym hefyd yn awyddus i recriwtio mwy o ymddiriedolwyr ifanc (18+), ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o gymunedau lleiaf-rifoedd ethnig, a chan bobl sydd ag anableddau.

Thank you for your interest in becoming a Trustee of Trac Cymru.

As we prepare to celebrate our recent 21st birthday, we're proud to see the difference that our work has made to the Welsh music scene and to the lives of so many people who have come to our courses and events.

We're reaching out to recruit new Trustees to take the charity into a strong and imaginative future. We are seeking both experienced Trustees and those new to the role.

Due to recent retirements from the Board we are particularly keen at this time to recruit Welsh speakers. The charity has a bilingual policy and our Board includes Welsh-speakers, learners and non-Welsh-speakers.

As an organisation, we know that we need to become more diverse to better reflect the whole of Wales, so we are also keen to recruit more young trustees (18+), and welcome applications from people from ethnic minority communities and from people with disabilities.

Blaenoriaethau ymarferol

Mae tîm Trac Cymru yn un bychan ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys saith ymddiriedolwr, pump aelod staff llawn- neu rhan-amser, a nifer o weithwyr llawrydd rheolaidd. Mae'r sefydliad yn wynebu ambell o heriau lle y gallai Ymddiriedolwyr newydd fod o gymorth penodol.

Estyn allan
Rydym yn frwdfrydig ynghylch cyrraedd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr newydd, ac felly byddem yn croesawu rhwydweithwyr brwd sydd â chysylltiadau â chymunedau allai gael budd o'r hyn sydd gennym i'w gynnig.

AD
Mae swydd wag yn ddiweddar ar y Bwrdd ar gyfer arbenigwr gyda phrofiad o faterion AD, wrth i Trac Cymru gychwyn ar gyfnod cyffrous o drawsnewid ac ehangu.

Practical priorities

The Trac Cymru team is small, currently seven trustees, five full- or part-time staff and a roster of regular freelancers. The charity faces some challenges where new Trustees could be of particular help.

Outreach
We're enthusiastic to reach new audiences and participants, so we'd welcome keen networkers with links to communities who could benefit from what we have to offer.

HR
There is a recent vacancy on the Board for a specialist with experience of HR matters, as Trac Cymru enters an exciting time of transition and expansion.

‘The future of the tradition and the tradition of the future’

‘Dyfodol y traddodiad a thraddodiad y dyfodol’

Am Trac Cymru

Sefydliad datblygu cerddoriaeth gwerin Cymru yw Traddodiadau Cerdd Cymru/ Music Traditions Wales, neu Trac Cymru yn fyr.

Rydym yn hybu diddordeb, magu talent a chyflwyno’r gorau o gerddorion gwerin Cymru drwy’r byd. Rydym yn cynnal cyrsiau un-dydd, a chyrsiau preswyl i helpu’r rhai brwdfrydig a phroffesiynnol i hogi eu sgiliau ac i ddatblygu talent ar draws ein celfyddydau traddodiadol.

Wrth i’r pandemig gilio, fe’n gwelir ni’n gweithio unwaith eto mewn ysgolion, cymunedau, ar feysydd gwyliau ac mewn arddangosfeydd rhygwladol i sicrhau fod y celfyddydau traddodiadol yn Nghymru yn parhau i gyfoethogi bywydau pawb sy’n dod ar eu traws.

About Trac Cymru

Traddodiadau Cerdd Cymru/Music Traditions Wales, or Trac Cymru for short, is Wales’ folk music development organisation.

We kindle interest, nurture talent and present the very best of Wales’ folk musicians across the world. We hold day courses and residential courses to help enthusiasts and professionals hone their skills and develop talent at all ages across our traditional arts.

As the pandemic recedes, you’ll once again find us working in schools, in communities, on festival fields and at international showcases, helping to ensure that the traditional arts of Wales continue to enrich the lives of all who encounter them.

Ein Gweledigaeth

Mae Trac Cymru yn grediniol mai celfyddydau perfformiadol traddodiadol yw sail hunaniaeth unrhyw genedl. Mae'r ffurfiau creadigol hyn yn rhan annatod o ddiwylliant Cymreig; mae'r gwerthoedd a'r emosiynau a fynegir ganddynt yn ein tynnu oll ynghyd. Nod Trac Cymru yw adnewyddu ac adfywio'r ffurfiau mynegiannol hyn fel rhan o fywyd cyfoes Cymru, a hynny er mwynhad pawb.

Ein Cenhadaeth

Datblygu celfyddydau gwerin perfformiadol Cymru fel traddodiad byw i'w rannu a'i fwynhau gan gynulleidfaoedd a pherfformwyr ar bob lefel, yng Nghymru a ledled y byd.

Our Vision

Trac Cymru believes that traditional performing arts are the foundation of any nation's identity. These creative forms are an integral part of Welsh culture; the values and emotions they express bind us all together. Trac Cymru aims to renew and reinvigorate these forms of expression as part of contemporary Welsh life, to be enjoyed by all.

Our Mission

To develop Welsh performing folk arts as a living tradition to be shared and enjoyed by audiences and performers at all levels, both in Wales and throughout the world.

Mae Traddodiadau Cerdd Cymru / Music Traditions Wales yn Elusen Cofrestredig, rhif 1085422, ac yn Gwmni Cyfyngedig Drwy Warant, rhif 04106014.

Traddodiadau Cerdd Cymru / Music Traditions Wales is a Registered Charity, number 1085422 and a Company Limited by Guarantee, number 04106014.

Cynlluniau Trac Cymru

Ein Nodau:

Bydd Trac Cymru yn hyrwyddo a datblygu celfyddydau perfformiadol traddodiadol Cymru er mwyn creu:

• cynaladwyedd wrth basio'r traddodiadau ymlaen trwy ymgysylltu a chyfranogiad

• sîn werin/draddodiadol broffesiynol ffyniannus sy'n cynnig llwybrau gyrfa hyfyw i artistiaid traddodiadol trwy ddatblygu proffesiynol

• gwell ymwybyddiaeth a chefnogaeth i gelfyddydau traddodiadol Cymru trwy eiriolaeth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Trac Cymru's plans

Our Aims:

Trac Cymru will promote and develop Wales' traditional performing arts to achieve:

• sustainability in handing on the traditions through engagement and participation

• a thriving professional traditional/folk scene with viable career paths for traditional artists through professional development

• increased awareness and support for Welsh traditional arts through advocacy at local, national and international level.

Ein Hamcanion Presennol

1. Datblygu sîn gerddoriaeth werin a dawnsio gwerin Cymru fel rhan gyfoes, byw ac egnïol o ddiwylliant Cymru.
• Cynyddu ymgysylltiad â phobl ifanc, yn yr ysgol a thu allan iddo
• Cefnogi cyfranogiad mewn celfyddydau traddodiadol
• Ymgysylltu â chymunedau amrywiol ledled Cymru

2. Datblygu cyfleoedd i gerddorion traddodiadol/gwerin proffesiynol Cymru
• Cyflwyno amwrywiaeth o DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) i gerddorion proffesiynol yng Nghymru
• Cefnogi arloesi, cydweithio ac arbrofi
• Datblygu marchnadoedd a chynulleidfaoedd newydd yng Nghymru a thu hwnt

3. Hyrwyddo canfyddiad cadarnhaol o'n celfyddydau traddodiadol
• Hyrwyddo celfyddydau perfformiadol traddodiadol Cymru fel rhan unigryw, bwysig a bywiog o'n diwylliant
• Datblygu canolfan genedlaethol i gerddoriaeth/y celfyddydau gwerin yng Nghymru
• Sicrhau cynaladwyedd y sefydliad

Our Current Objectives

1. Develop Wales' folk music and dance scene as a contemporary, vibrant and living part of Wales' culture.
• Increase engagement with young people, both within and outside school
• Encourage participation in traditional arts
• Engage diverse communities across Wales

2. Develop opportunities for professional Welsh traditional/folk musicians
• Deliver a range of CPD (Continuous Professional Development) for Welsh professional musicians
• Support innovation, collaboration and experimentation
• Develop new markets and audiences in Wales and beyond

3. Promote a positive view of our traditional arts
• Promote Wales's traditional performing arts as a distinctive, important and vibrant part of our culture
• Develop a national centre for music/ the folk arts in Wales
• Ensure sustainability for the organisation

Ymrwymiad Ymddiriedolwr

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Bydd angen i chi fynychu o leiaf tri o'r cyfarfodydd hyn bob blwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd gyda'r nos ar Zoom ar hyn o bryd, ac maent yn parhau am tua dwyawr fel arfer. Telir costau teithio ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Mae gan y Fwrdd grŵpiau 'diddordeb arbennig'; mae'r rhain yn cyfarfod tua dwywaith y flwyddyn fel arfer.

Nid oes tymor penodiad penodedig ar gyfer Ymddiriedolwyr.

A Trustee's commitment

The Board meets four times a year. You'll need to attend at least three of these meetings per year. Meetings are currently held on Zoom in the evenings and usually last around two hours. Travel expenses are paid for in-person meetings.

There are board 'special interest' groups; these generally meet around twice a year.

There is no fixed term of appointment for Trustees.

Fel un o Ymddiriedolwyr Trac Cymru, byddwch yn

• Helpu i wireddu ein cenhadaeth a'n gweledigaeth.
• Cael dealltwriaeth glir o'r sefydliad, a'ch swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr.
• Ymrwymedig i gydweithio er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion.
• Cymryd cyfrifoldeb sylfaenol am y sefydliad fel aelod o'r Bwrdd
• Gweithredu ac ymddwyn mewn modd agored, gan groesawu atebolrwydd, gwrando, ac ymateb yn ddeallus.

As a Trac Cymru Trustee, you'll

• Help to make our our mission and vision a reality.
• Have a clear understanding of the organisation, and your role and responsibilities as a Trustee.
• Be committed to working together to reach our aims and objectives.
• Take ultimate responsibility for the organisation as a member of the Board
• Act and behave with openness, welcoming accountability, listening and responding with insight.

Ein Côd Ymddiriedolwyr

1. Bod yn llysgennad ysbrydoledig a charismatig, ac yn eiriolwr ar ran Trac Cymru ble bynnag a phryd bynnag y bo'n bosib.

2. Ffurfio perthnasau adeiladol a chadarnhaol ag Ymddiriedolwyr a staff eraill, gan ddangos parodrwydd i wrando a deall.

3. Bod yn effro i gyfleoedd i hyrwyddo Trac Cymru neu ymgysylltu â phartneriaid newydd yn ein gwaith.

4. Cyfrannu at gyfeiriad strategol yr elusen.

Our Trustee Code

1. Be an inspirational and charismatic ambassador and an advocate for Trac Cymru wherever and whenever possible.

2. Build constructive, positive relationships with other Trustees and staff with a willingness to listen and understand.

3. Be alert for opportunities to promote Trac Cymru or to engage with new partners in our work.

4. Contribute to the strategic direction of the charity.

5. Monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau
strategol a gweithredol y sefydliad.

6. Defnyddio eich arbenigedd, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gyfrannu at drafodaethau ystyrlon mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau.

7. Craffu ar bapurau'r Bwrdd, gan ofyn cwestiynau priodol, herio a chefnogi.

8. Defnyddio crebwyll a chyfrannu at benderfyniadau.

9. Cynnal y safonau uchaf o ran llywodraethu elusennol, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau

10. Ymateb i newid, gan ymgysylltu'n weithredol a dysgu am ddatblygiadau ym myd cerddoriaeth draddodiadol Gymreig, ac o fewn y sector elusennau.

5. Monitor progress against the organisation's strategic and operational plans.

6. Participate in meaningful discussions at Board and committee meetings with your expertise, skills, knowledge and experience.

7. Scrutinise Board papers and ask appropriate questions, challenge and support.

8. Apply good judgement and contribute to decision making.

9. Uphold the highest standard of charity governance as set out by the Charity Commission..

10. Be responsive to change, actively engaging with and learning about developments in the world of Welsh traditional music and in the charity sector.

Mae cyfrifoldebau cyfreithiol Ymddiriedolwr yn cynnwys:

1. Sicrhau fod yr elusen yn cael ei rhedeg yn dda, yn ddiddyled, ac yn cyflawni ei deilliannau elusennol.
2. Sicrhau nad yw arian yn cael ei roi mewn sefyllfa o risg annyladwy, neu'n cael ei gamddefnyddio.
3. Sicrhau fod yr elusen yn cydymffurfio â rheoliadau a'r gyfraith.
4. Gweithredu gyda chywirdeb ac osgoi gwrthdaro buddiannau.
5. Ymrwymo i wella llywodraethiant a sgiliau llywodraethu'r Bwrdd.

Cyhoeddir canllawiau ffurfio ar gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr gan y Comisiwn Elusennau: gweler Yr Ymddiriedolwr Hanfodol ar y dudalen yma https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3, a ddarperir i bob ymddiriedolwr wrth benodi.

Legal responsibilities of a Trustee include:

1. Ensuring that the charity is well run, solvent and delivers its charitable outcomes.
2. Ensuring funds are not placed at undue risk or misused.
3. Ensuring the charity complies with regulation and law.
4. Acting with integrity and avoiding conflicts of interest.
5. Committing to the improvement of governance and the governing skills of the Board.

Formal guidance on the responsibilities of trustees is provided by the Charity Commission: see The Essential Trustee at https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3 which all trustees are given upon appointment.

Sut i wneud cais

Oes gennych chi ddiddordeb?
Byddem wrth ein boddau yn clywed gennych.

Anfonwch air at trac@trac-cymru.org ac fe wnawn ni anfon ffurflen gais syml atoch, lle gallwch ddweud ychydig wrthym amdanoch chi eich hun. Gallwch gynnwys eich CV neu ddolenni i'ch gweithgaredd ar y we os dymunwch, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Gallwch ddysgu mwy am Trac Cymru a'n gwaith trwy fynd i www.trac.cymru

Mae gennym sianel YouTube, a gallwch ddod o hyd i ni ar Facebook, Twitter ac Instagram fel Trac Cymru.

How to apply

Interested?
We'd love to hear from you.

Drop us a line at trac@trac-cymru.org and we'll send you a simple application form where you can tell us a little about yourself. You can include your CV if you wish, or links to your online presence if you like, but this is not essential.

You can find out more about Trac Cymru and our work at www.trac.wales

We have a YouTube channel and we're on Facebook, Twitter and Instagram as Trac Cymru.

v2022